CYFARFOD

# Cyfarfod y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro: 29 Ionawr 2021

Agenda a chofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2021.

Cyhoeddwyd gyntaf: 8 Mehefin 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 8 Mehefin 2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-gwaith-ieuenctid-dros-dro-29-ionawr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Agenda

Attendees

Ymddiheuriadau

Cofnodion a phwyntiau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Estyn: Gareth Kiff

Diweddariad Llywodraeth Cymru

Diweddariad Keith Towler

Diweddariad y GCS

Cyfarfod nesaf yr holl GCSau

Map ffordd i'r adroddiad terfynol

Gwaith Ieuenctid Rhyngwladol: Howard Williamson

Asiantaeth Ieuenctid Cymru gynt: Howard Williamson

Y Cyfarfod Nesaf



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-gwaith-ieuenctid-dros-dro-29-ionawr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Agenda

## Agenda

| Amser | Eitem | Papurau |
|---|---|---|
| 13:00 | Croeso<br><br>Cofnodion a chamau gweithredu o gyfarfod mis Rhagfyr | 1. Cofnodion |
| 13:10 | Rôl Estyn o ran cefnogi gwaith ieuenctid (Gareth Kiff) | |
| 13:30 | Diweddariad LIC | |
| 13:40 | Diweddariad Keith | |
| 13:50 | Diweddariad y GCS gan gynnwys:<br>• Diweddariad y Pwyllgor Pobl Ifanc<br>• Peilot y Gymraeg | 2. Cynllun Gweithredu'r Pwyllgor Pobl Ifanc |
| 14:10 | Cyfarfod nesaf yr holl GCSau - Chwefror | 3. Cynllun Rhyng-gysylltu |
| 14:45 | Map ffordd tuag at yr adroddiad terfynol a thu hwnt | 4. Manylion e-bost<br>5. Adborth Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol |
| 15:15 | Gwaith ieuenctid rhyngwladol | |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-gwaith-ieuenctid-dros-dro-29-ionawr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| | |
|---|---|
| | (Howard Williamson) |
| 15:40 | Profiad Asiantaeth Ieuenctid Cymru<br><br>(Howard Williamson) |
| 16:00 | Unrhyw Fater Arall |
| 16:15 | Cloi |

# Attendees

Aelodau:

- Keith Towler (KT): Cadeirydd y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro
- Sharon Lovell (SL): Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol ac Is-gadeirydd, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol
- Efa Gruffudd Jones (EGJ): Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- Simon Stewart (SS): Deon y Gyfadran Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam
- Jo Sims (JS): Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid Blaenau Gwent
- Dusty Kennedy (DK): Trauma Recovery Model Academy

Llywodraeth Cymru (LlC):

- Declan Burns (DB): Rheolwr Strategaeth Gwaith Ieuenctid
- Gemma Roche-Clarke (GRC): Pennaeth y Tîm Ymgysylltu Ieuenctid
- Dareth Edwards (DE): Rheolwr Polisi Gwaith Ieuenctid
- Donna Lemin (DL): Uwch Reolwr Strategaeth Gwaith Ieuenctid

Drwy wahoddiad:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-gwaith-ieuenctid-dros-dro-29-ionawr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Gareth Kiff (GK): Estyn
- Howard Williamson (HW): Prifysgol De Cymru

## Ymddiheuriadau

Eleri Thomas, Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent.

## Cofnodion a phwyntiau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Cytunodd y Bwrdd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

Rhoddodd KT y newyddion diweddaraf i'r Bwrdd am ei waith yn gysylltiedig â'r adolygiad gweinidogol o gyfleoedd chwarae. Dywedodd fod Chwarae Cymru yn croesawu adroddiad y Bwrdd, ac mae KT yn edrych ymlaen i wneud gwaith ar hyn yn y dyfodol, ac i nodi agweddau sy'n gorgyffwrdd rhwng y ddau faes polisi.

## Estyn: Gareth Kiff

Roedd Gareth yn croesawu adroddiad y Bwrdd a'r cyfeiriadau at y gwaith y mae Estyn wedi'i gyflawni yn gysylltiedig â gwaith ieuenctid hyd yma. Dywedodd eu bod yn croesawu'r cyfle i ymgysylltu mwy â'r sector a'u bod yn dechrau casglu gwybodaeth fanwl am yr hyn sy'n digwydd. Dywedodd Gareth fod Estyn yn cynnal fforwm i randdeiliaid ar 8 Mawrth 2021, a'i fod yn bwriadu gweithio'n agos gyda'r sector wrth ddatblygu unrhyw fframwaith arolygu yn y dyfodol ar gyfer gwaith ieuenctid.

Roedd y Bwrdd yn croesawu ymgysylltiad Gareth, a'r modd y mae Estyn yn ymgysylltu â'r sector gwaith ieuenctid. Mae adroddiad cychwynnol y Bwrdd (argymhelliad 7) yn trafod yr angen i sefydlu fframwaith arloesi a chanlyniadau ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-gwaith-ieuenctid-dros-dro-29-ionawr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Diweddariad Llywodraeth Cymru

Rhoddodd GRC y newyddion diweddaraf i'r Bwrdd am staffio yn y Gangen Ymgysylltu Ieuenctid. Tynnodd sylw at y ffaith bod Llywodraeth Cymru y parhau i gynnal trafodaethau ynghylch Erasmus + a'r effaith ar bobl ifanc a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt yn sgil colli'r rhaglen hon. Dywedodd hefyd fod y tîm wedi derbyn ceisiadau i roi ystyriaeth bellach i ganllawiau Covid 19, ac y bydd y tîm yn gwneud hynny i sicrhau na chaiff cyfleoedd eu colli.

## Diweddariad Keith Towler

Dywedodd KT ei fod wedi cwrdd â Sara Faye ar ôl y Nadolig i roi'r newyddion diweddaraf iddi yn dilyn adroddiad y Bwrdd. Dywedodd fod Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol wedi cynnal digwyddiad hystings buddiol, gyda nifer dda'n bresennol, a bod llawer o'r gwleidyddion a oedd yno wedi darllen adroddiad y Bwrdd a rhoi sylwadau arno. Dywedodd KT hefyd ei fod wedi cyfarfod â Jane Hutt yn ddiweddar yng nghyswllt cyfiawnder ieuenctid i drafod gwell rheolaeth ar achosion a chynigion ar gyfer sefydliadau diogel. Mae'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid yn canolbwyntio ar atal, sydd hefyd o ddiddordeb o safbwynt gwaith ieuenctid.

## Diweddariad y GCS

Dywedodd SL y byddai canlyniad y tendr ar gyfer y Pwyllgor Pobl Ifanc yn cau ar 8 Chwefror, ac y gwelwyd lefelau da o ddiddordeb hyd yma. Trafododd y Bwrdd a fyddent yn ymuno â'r Pwyllgor yn ei gyfarfod, a chytunwyd y gallai pob un aelod gymryd tro i ymuno â'r Pwyllgor er mwyn i'r bobl ifanc ddod i'w hadnabod. Cytunwyd hefyd y gallai'r Pwyllgor ddechrau drwy edrych ar ymagwedd at waith ieuenctid sy'n seiliedig ar hawliau pobl ifanc. Dywedodd SL ei bod yn cyfarfod â'r Urdd i drafod cynnydd ar 3 Chwefror.

Gofynnodd SL a oedd bellach angen rhoi'r Siarter Gwaith Ieuenctid yn ei gwely,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-gwaith-ieuenctid-dros-dro-29-ionawr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ac awgrymwyd nad oedd unrhyw broblemau'n gysylltiedig ag ystyriaethau'r siarter flaenorol, a'u bod wedi'u cynnwys mewn dogfennau eraill. Fodd bynnag, teimlwyd pe bai Siarter newydd yn cael ei hystyried yn angenrheidiol, y gallai'r Siarter honno gael ei datblygu gan bobl ifanc.

Gofynnodd EGJ am y newyddion ddiweddaraf am drafodaethau Peilot y Gymraeg a dywedodd DL y byddai'n darparu'r wybodaeth honno erbyn 1 Chwefror.

## Cyfarfod nesaf yr holl GCSau

Aeth DB drwy'r cynllun rhyng-gysylltiad a groesawyd gan y Bwrdd. Dywedodd y gallai'r cynllun gael ei ddiweddaru, ac y gallai cysylltiadau gael eu creu rhwng yr argymhellion yn adroddiad y Bwrdd a chynlluniau'r GCSau. Cytunwyd ar fformat cyfarfod nesaf y GCSau.

## Map ffordd i'r adroddiad terfynol

Dywedodd KT y bu'r adborth ar yr adroddiad hyd yma yn fuddiol. Dywedodd y byddai'n hoffi cael awdur i gydweithio â'r Bwrdd ar yr adroddiad terfynol. Cytunodd DL i ymchwilio i gaffael y gwasanaeth hwn a llunio manyleb ar gyfer y gwaith.

Cytunodd y Bwrdd ei fod am gael diwrnod llawn arall, neu ddau hanner diwrnod, i drafod beth i'w wneud nesaf o ran yr adroddiad a'r camau gweithredu. LlC i gynnig rhestr o ddyddiadau cyfarfod.

## Gwaith Ieuenctid Rhyngwladol: Howard Williamson

Rhoddodd HW drosolwg o'r gwaith y mae'n ei wneud ar sail ryngwladol yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-gwaith-ieuenctid-dros-dro-29-ionawr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

amlygu pwysigrwydd y manteision a ddaw i bobl ifanc yn sgil gwaith rhyngwladol/Erasmus +. Cyfeiriodd at yr ymgyrch i gysylltu gwaith ieuenctid â chyflogaeth a'r ffocws cryf ar gysylltiadau a iechyd meddwl.

## Asiantaeth Ieuenctid Cymru gynt: Howard Williamson

Yn rhan o waith y Bwrdd i ystyried Bwrdd neu Gorff cenedlaethol yn y dyfodol, gofynnwyd i HW roi trosolwg o'i amser gydag Asiantaeth Ieuenctid Cymru. Esboniodd HW sut y cafodd yr Asiantaeth ei sefydlu, a beth oedd ei phrif ddiben. Rhoddodd HW drosolwg o'r hyn a oedd wedi gweithio, ac enghreifftiau o'r hyn fu'n llai llwyddiannus. Gofynnodd SL a oedd yr Asiantaeth yn cael ei harwain gan bobl ifanc, a dywedodd HW fod rhai o'u telerau ac amodau wedi'u datblygu gan fforwm pobl ifanc, ond cynghorodd fod angen eglurder ynghylch ymglymiad pobl ifanc mewn unrhyw gorff yn y dyfodol. Nododd fod gwahaniaeth rhwng yr angen i glywed lleisiau pobl ifanc, a'r gwaith strategol ar faterion gwaith ieuenctid - ac nad oedd y naill a'r llall yr un peth o reidrwydd.

Diolchodd KT i HW am ei amser.

## Y Cyfarfod Nesaf

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd am 09:00 ar 30 Mawrth 2021 ar Microsoft Teams.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-gwaith-ieuenctid-dros-dro-29-ionawr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae’r ddogfen hon yn gopi o’r dudalen we **Cyfarfod y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro: 29 Ionawr 2021** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-gwaith-ieuenctid-dros-dro-29-ionawr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-gwaith-ieuenctid-dros-dro-29-ionawr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.